Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Hafan y Coed**

**Nightingale Court**
**Llanelli**
**SA15 1HU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/06/2021

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Hafan y Coed

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal a Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Barchester Healthcare Homes Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 107 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael cymorth a gwasanaeth sy'n canolbwyntio arnynt fel unigolion gan dîm o staff profiadol, sydd wedi cael eu hyfforddi'n dda. Mae'r gwaith o gynllunio gofal yn fanwl ac yn llawn gwybodaeth, ond nid yw'r wybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn bob amser wedi cael ei chwblhau. Mae'r bobl yn hapus bod gweithgareddau yn ailddechrau ar ôl i gyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio. Mae'r amgylchedd yn galluogi'r bobl i ryngweithio mewn ardaloedd cymunedol, sy'n olau ac mewn cyflwr da. Mae pawb sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth yn edrych ymlaen at ddod i adnabod y rheolwr newydd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ac maent yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau unigol. Mae'r staff wedi'u hyfforddi'n dda, maent yn brofiadol ac roedd pob un ohonynt yn siarad yn gadarnhaol am y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r unigolyn, maent yn ystyriol ac yn garedig; gwelsom sawl enghraifft o hyn yn ystod yr arolygiad. Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed, ac mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i roi gwybod am bryderon a'r polisïau sydd ar waith i'w cefnogi a'u hysbysu. Mae gan y gwasanaeth ddealltwriaeth dda o atal a rheoli heintiau, gyda mesurau COVID-19 cadarn ar waith.

Ataliwyd y gwaith uwchraddio ac ailaddurno yn sgil y cyfyngiadau diweddar, ond mae hyn wedi ailddechrau a chaiff yr effaith ar lesiant y bobl ei mesur. Mae'r cartref yn cydymffurfio â'r rheoliadau tân a dyfarnwyd sgôr o bump i'r gegin gan Iechyd yr Amgylchedd.  Roedd pawb y gwnaethom siarad â nhw yn mwynhau'r prydau bwyd. Gwelsom fod y bobl yn cael dewis o ran bwydydd a rhoddir y cymorth priodol iddynt yn ôl yr angen.

Mae'r cynlluniau gofal yn cynnwys asesiadau nyrsio da a chadarnhawyd tystiolaeth o waith amlddisgyblaethol gan weithwyr proffesiynol a oedd ymweld â'r gwasanaeth. Mae angen cwblhau'r adran ‘Getting to Know Me’ (Dewch i adnabod fi) ym mhob un o'r cynlluniau, gyda thystiolaeth o gyfraniad y bobl a'u cynrychiolwyr. **

Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae gwybodaeth o'r archwiliadau mewnol ac adborth gan y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref yn rhan o'i adroddiad chwarterol. Mae'r wybodaeth am y gwasanaeth ar gael i'r bobl, ac maent yn ymwybodol o sut i godi pryderon os bydd angen.

## Gofal a Chymorth

Darperir gofal a chymorth gan weithwyr gofal profiadol, sy'n deall yr unigolion. Caiff y bobl eu hannog i gynnal eu hannibyniaeth, a rhoddir cymorth mewn ffordd gynnil a sensitif pan fydd ei angen. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym, *“I love my work, and the residents” (Rwyf wrth fy modd yn fy swydd ac yng nghwmni'r preswylwyr), “It’s been very hard, but it feels like a bit of a dream right now, but the residents are the most important to me and their care and safety is paramount” (Mae wedi bod yn anodd iawn, ond mae'n teimlo fel breuddwyd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, y preswylwyr yw'r rhai pwysicaf i mi ac mae eu gofal a'u diogelwch yn hanfodol).* Mae cynrychiolwyr yn disgrifio'r staff fel unigolion gofalgar ac ymroddedig, y mae ganddynt gydberthynas gadarnhaol â'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw. Dywedodd perthynas wrthym,*“My mother has had a new lease of life since she moved to the home” (Mae fy mam wedi cael estyniad einioes ers iddi symud i'r cartref).*

Caiff anghenion y bobl eu diwallu gan nifer digonol o staff. Caiff nifer y gweithwyr gofal eu cyfrifo bob mis a gwelsom fod rota'r staff yn cadarnhau hyn. Dywedodd un person wrthym, “*some of them (care staff) are extra lovely and do whatever they can to help, they are as good as gold” (Mae rhai ohonynt [y staff gofal] yn hyfryd iawn ac yn gwneud popeth o fewn eu gallu i helpu – maent cystal â'r aur.* Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl yn gadarnhaol ac yn rhwydd. Dywedodd aelod o'r teulu bod y staff yn,*“Absolutely marvellous, we couldn’t ask for more” (Ardderchog – ni allem ofyn am ragor).*

Caiff gweithgareddau eu trefnu ar y cyd a chaiff y manylion eu harddangos mewn ardaloedd cymunedol. Mae'r bobl yn mwynhau garddio, digwyddiadau â thema, gweithgareddau cadeiriau a chwisiau. Dywedodd un person wrthym am y daith gyntaf roedd wedi mynd arni ar ôl i'r cyfyngiadau llacio,*“it was a huge relief to get out and see the beach and it was a real treat and I go whenever I can now” (Roedd yn rhyddhad mawr cael mynd allan a gweld y traeth. Roedd hi'n bleser gwirioneddol, ac rwy'n mynd pryd bynnag y gallaf nawr).* Mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref yn defnyddio'r Gymraeg, a dywedodd un perthynas wrthym,*“Lots of the staff are welsh speakers and that helps mum stay engaged because it’s her first language; it’s a lovely unit” (Mae llawer o'r staff yn siarad Cymraeg ac mae hynny'n helpu Mam i ymgysylltu, gan mai'r Gymraeg yw ei hiaith gyntaf; mae'n uned hyfryd)*. Mae polisi derbyn clir ar wait ac mae'r staff yn gweithio yn unol â chynlluniau gofal llawn gwybodaeth. Mae'r cofnodion nyrsio yn canolbwyntio ar faterion iechyd a chymerir camau gweithredu manwl. Dywedodd gweithwyr proffesiynol a oedd ymweld â'r gwasanaeth wrthym fod *“good multi-disciplinary working” (dulliau amlddisgyblaethol da)* ar waith. Mae dogfen o'r enw ‘Getting to Know Me’ (Dewch i Adnabod Fi) yn casglu gwybodaeth am yr unigolyn. Nid yw'r dogfennau hyn bob amser yn cael eu cwblhau, ac ni welsom unrhyw dystiolaeth bod yr unigolyn na'i gynrychiolydd yn cael eu cynnwys yn yr adolygiadau. Trafodwyd hyn â'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr fel rhan o'r adborth, a bydd y mater yn cael ei adolygu yn

ystod yr arolygiad nesaf.

Mae'r gegin wedi cael sgôr hylendid bwyd o bum seren, gyda bwydlenni amrywiol yn cynnig amrywiaeth o ddewisiadau.  Defnyddir platiau, mygiau a chyllyll a ffyrc mewn lliwiau gwrthgyferbyniol er mwyn helpu'r bobl sydd eu hangen. Mae adegau bwyd yn brofiad cadarnhaol yn ôl pob golwg, a chaiff y bobl help i fwyta'r bwyd mewn ffordd sensitif a chynnil. Dywedodd unigolyn sy'n byw yn y cartref fod y bwyd yn "*appetising and nutritious" (blasus ac yn faethlon).*

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan i leihau'r risg o haint. Roedd ymwelwyr â'r cartref yn cael Prawf Llif Unffordd ac roedd eu tymheredd yn cael eu cofnodi. Roedd y staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol (PPE) cywir ac yn dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r bobl yn symud o gwmpas y cartref yn ddirwystr, ac mae'r cynllun yn eu galluogi i ryngweithio, ac mae'r papurau newydd yn y bar coffi yn lle da i ddechrau sgwrs. Mae'r ardaloedd cymunedol yn olau, yn fawr ac yn ysgogol. Gall yr unigolion bersonoli eu hystafelloedd eu hunain.

Mae'r cartref yn cydymffurfio â Rheoliadau Tân ac mae profion y cyfarpar diogelwch tân yn gyfredol.  Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi’u teilwra i'r unigolyn ac ar gael mewn argyfwng.

Mae archwiliadau Iechyd a Diogelwch rheolaidd o'r eiddo a'r cyfarpar a ddefnyddir yn nodi diffygion a'r camau gweithredu sydd eu hangen.  Gohiriwyd y cynllun diweddaru ac ailaddurno yn ystod y pandemig ond mae wedi ailddechrau. Newidiwyd y carped mewn ardal o'r cartref lle y nodwyd bod risg fawr y gall rhywun gwympo. Dywedodd y dirprwy reolwr wrthym fod y carped newydd yn effeithiol wrth atal cwympiadau a bod achosion wedi lleihau'n sylweddol. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu monitro effaith y diweddariadau arfaethedig ar iechyd a diogelwch a llesiant y bobl. Er enghraifft ffenestri newydd, paent o liw goleuach ac addurniadau mwy ysgogol.

Mae mesurau ychwanegol wedi'u cyflwyno o ganlyniad i COVID-19. Gwelsom fod gorsafoedd diheintio wedi'u lleoli ym mhob rhan o'r gwasanaeth a bod gweithdrefn brofi lem ar waith ar gyfer pob ymwelydd.

## Arwain a Rheoli

Mae'r gwasanaeth yn adfer ar ôl brigiad sylweddol o achosion COVID-19 a bu newidiadau i'r tîm rheoli dros y misoedd diwethaf. Nid yw hyn wedi effeithio ar ymroddiad y staff na'r rheolwr newydd i gefnogi'r bobl yn eu gofal.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn monitro'r gwasanaeth drwy gynnal tri ymweliad misol Rheoliad 73, ac mae'r rhain yn cael eu cwblhau yn rhithwir ar hyn o bryd. Maent yn cynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth gan y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth. Mae canlyniadau adolygiadau llywodraethu clinigol, cyfarfodydd penaethiaid adran ac archwiliadau darparwyr yn cefnogi'r unigolyn cyfrifol i oruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae'r camau i fynd i'r afael ag ansawdd y gwasanaeth a ddarperir a gwella'r ansawdd yn cael eu nodi ym mhob adroddiad.

Mae'r rheolwr yn newydd i'r gwasanaeth ac yn dweud ei fod yn cael cymorth da gan y darparwr. Mae'r tîm o staff presennol a'r cydberthnasau sydd ganddynt â'r bobl yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Fel rhan o 'ddod i adnabod' y gwasanaeth, mae'r rheolwr yn treulio amser ym mhob ardal ac mae bellach yn gyfarwydd â thri chwarter y cartref. Adlewyrchir hyn yn yr hyn a ddywedodd y staff wrthym, gan fod rhai yn teimlo nad oeddent wedi cael cyfle i ddatblygu cydberthynas â'r rheolwr eto. Fodd bynnag, maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr cynorthwyol, ac y gallant godi materion yn uniongyrchol gyda'r rheolwr neu'r rheolwr cynorthwyol ac maent yn gwerthfawrogi eu didwylledd a'r ffaith eu bod ar gael.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref, eu cynrychiolwyr a'r staff yn cydnabod bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol iawn. Maent wedi tynnu sylw at ba mor werthfawr yw'r staff a'r cymorth a gânt. Dywedodd un person wrthym, "I *hope the staff get the credit they deserve because they are doing a difficult job superbly" (Rwy'n gobeithio y bydd y staff yn cael y gydnabyddiaeth y maent ei haeddu oherwydd maent yn gwneud gwaith anodd yn wych).*

Mae'r staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn deall anghenion y bobl y maent yn gofalu amdanynt ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddiogelu. Mae ganddynt hyder yn eu gallu i ganfod problemau a rhoi gwybod amdanynt. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol, megis diogelu, adborth cwsmeriaid a derbyniadau, yn rhoi cyfarwyddyd i'r gweithwyr.

Mae gwybodaeth am y gwasanaeth a'r hyn i'w ddisgwyl ar gael i'r bobl. Mae'r staff yn dilyn y gweithdrefnau rheoli heintiau cywir ac yn deall eu cyfrifoldebau personol o ran COVID-19. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *"we worked so hard at keeping the disease out of the home for so long and it was devastating that we lost so many people right at the end of it all. The team have been brilliant and they clearly love the residents" (Gwnaethom weithio mor galed yn ceisio cadw'r afiechyd allan o'r cartref cyhyd, ac*

*roedd yn dorcalonnus ein bod wedi colli cymaint o bobl yn y pen draw. Mae'r tîm wedi bod yn wych ac mae'n amlwg bod y staff yn caru'r preswylwyr).*

Mae'r staff yn disgrifio rhaglen hyfforddi a datblygu fanwl i'w galluogi i ddiwallu anghenion y bobl. Roedd y matrics hyfforddiant yn cadarnhau hyn. Mae'r cofnodion goruchwylio yn dangos bod y staff yn cael cyfarfodydd unigol rheolaidd i drafod perfformiad, a chadarnhawyd hyn gan bron pob un o'r staff. Mae'r prosesau recriwtio yn cydymffurfio ac mae gwiriadau priodol ar waith cyn i bobl ddechrau gweithio yn y cartref.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni** |
|---|

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
|---|---|
| Dim | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/09/2021

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi